Cyfenw	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd
Enw(au) cyntaf		0

TGAU

3310N10-1

A22-3310N10-1

DYDD MAWRTH, 8 TACHWEDD 2022 – BORE

MATHEMATEG – RHIFEDD
UNED 1: HEB GYFRIFIANNELL
HAEN SYLFAENOL

1 awr 30 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Ni allwch chi ddefnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Gallwch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen ychwanegol.

Cymerwch π fel 3·14.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech chi roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn **5**, bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.

I'r Arholwr yn Unig		
Cwestiwn	**Marc Uchaf**	**Marc yr Arholwr**
1.	**3**	
2.	**10**	
3.	**4**	
4.	**7**	
5.	**9**	
6.	**4**	
7.	**9**	
8.	**3**	
9.	**11**	
10.	**5**	
Cyfanswm	**65**	

3310N101
01

NOV223310N10101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a + b)h$



Arholwr yn unig

1. Mae Jayne a Llinos yn mynd i siopa ar gyfer eu prom diwedd blwyddyn. Mae Jayne yn prynu'r eitemau canlynol.

Eitem	Cost
Ffrog	£199.85
Esgidiau	£38.75
Bag	£27.98
Gemwaith	£18.99

Mae Llinos yn dweud,

> Rydw i'n meddwl dy fod wedi gwario dros £300 fel cyfanswm.

Drwy frasamcanu (*approximating*) cost pob eitem, dangoswch fod Llinos yn anghywir. Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

3310N101 03

Arholwr yn unig

2.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymwelwyr â rhai o'r atyniadau gorau (*top attractions*) yng Nghymru yn 2017 a 2018.
Mae'r tabl hefyd yn dangos y newid canrannol yn nifer yr ymwelwyr o 2017 i 2018.

Atyniadau	Nifer yr ymwelwyr 2017	Nifer yr ymwelwyr 2018	Newid canrannol
Fferm Folly	480 000	455 428	–5·1%
Castell Caerdydd	319 131	452 007	+41·6%
Gardd Bodnant	255 949	260 153	+1·6%
Castell Caernarfon	204 675	205 009	+0·2%
Castell Conwy	221 652	201 961	–8·9%
Zip World Llechwedd	190 000	195 000	+2·6%

Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl uchod i ateb y cwestiynau canlynol.

(a) Roedd Zip World Llechwedd wedi cael 195 000 o ymwelwyr yn 2018.
Ysgrifennwch y rhif hwn mewn geiriau. [1]

.....

.....

(b) Pa un o'r atyniadau oedd wedi cael y newid canrannol lleiaf o 2017 i 2018? [1]

.....

.....

(c) Cyfrifwch gyfanswm nifer yr ymwelwyr â Gardd Bodnant yn 2017 a 2018. [2]

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(ch) Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng nifer yr ymwelwyr â Chastell Caerdydd yn 2017 a nifer yr ymwelwyr â Chastell Caerdydd yn 2018. [2]

.....

.....

.....

.....

(d) Mae Ian yn edrych ar y data ac yn dweud,

"Yn 2018, roedd Fferm Folly wedi cael tua hanner miliwn o ymwelwyr."

Ydy Ian yn gywir?
Rhowch reswm dros eich ateb. [1]

Ydy ☐ Nac ydy ☐

.....

.....

.....

.....

3310N101
05

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

(dd) Mae atyniad newydd i ymwelwyr, Tailspin, eisiau defnyddio cynffon y ddraig o faner Cymru fel ei logo.

Mae rhywun wedi lluniadu'r cynffon ar y grid sgwariau centimetr isod.
Mae pob sgwâr ar y grid yn cynrychioli arwynebedd o $4\,cm^2$.



Mae Tailspin yn bwriadu gwneud taflenni i hysbysebu'r atyniad.
Er mwyn argraffu'r taflenni, rhaid i arwynebedd y cynffon fod yn llai na $48\,cm^2$.

Mae rheolwr Tailspin yn meddwl bod arwynebedd y cynffon yn fwy na $48\,cm^2$.

Penderfynwch ydy'r rheolwr yn gywir neu beidio.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

Mae'r rheolwr yn:

Cywir ☐ Anghywir ☐

.....

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

3.

Mae cod 6-digid gan Rhodri ar gyfer ei gyfrif banc rhyngrwyd (*internet bank account*).
Mae Rhodri yn cofio'r cod fel tri rhif dau-ddigid.

Mae'r rhif dau-ddigid cyntaf yn rhif cysefin rhwng 25 a 30.
Mae'r ail rif dau-ddigid yn rhif sgwâr rhwng 10 a 20.
Mae'r trydydd rhif dau-ddigid yn odrif sy'n lluosrif 7 rhwng 20 a 40.

Mae pob un o'r 6 digid yn y cod yn **wahanol**.
Beth yw cod 6-digid Rhodri? [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Cod 6-digid Rhodri yw: ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

3310N101
07

Arholwr yn unig

4. Mae dylunydd gemwaith yn gwneud tlysau (*brooches*).
Mae pob tlws (*brooch*) yn cynnwys nifer o ddarnau unfath (*identical*) o fetel.

Mae'r tlysau hyn ar gael mewn dyluniadau gwahanol.
Mae'r dyluniadau hyn yn dilyn patrwm syml.

Mae'r tri dyluniad cyntaf yn cael eu dangos isod.
Mae Dyluniad 1 yn cynnwys 3 darn o fetel.



Dyluniad 1	Dyluniad 2	Dyluniad 3

(a) Faint o'r darnau o fetel fydd yn cael eu defnyddio i wneud tlws Dyluniad 5? [1]

.....

(b) Pa ddyluniad sy'n defnyddio 11 darn o fetel? [1]

.....

(c) Mae cwsmer yn dweud,

I ddarganfod faint o'r darnau o fetel sy'n cael eu defnyddio ym mhob dyluniad, rydych chi'n lluosi rhif y dyluniad â 3, oherwydd mae Dyluniad 1 yn cynnwys tri darn o fetel.

Ydy'r cwsmer yn gywir ar gyfer pob dyluniad?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Rhowch reswm dros eich ateb. [1]

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(ch) Mae un cwsmer yn penderfynu archebu tlws arbennig sydd â bar llorweddol ar y top.

Mae'r dylunydd yn gwybod dwy o'r onglau. Mae'r rhain yn cael eu dangos yn y diagram isod.



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Cyfrifwch beth yw maint ongl x. [2]

.....

.....

$x =$ ..... °

(d) Mae'r dylunydd yn defnyddio'r fformiwla ganlynol i gyfrifo pris tlws.

Pris tlws (mewn £) = 2 × cost y defnyddiau + 14

Mae cwsmer yn gwario £30 ar dlws ar gyfer ffrind.

Cyfrifwch beth yw cost y defnyddiau ar gyfer y tlws hwn. [2]

.....

.....

.....

.....

Cost y defnyddiau yw £ .....

3310N101
09

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

5. *Yn y cwestiwn hwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.*

Mae Gerry yn chwarae'r piano mewn band.
Mae Gerry eisiau prynu piano digidol newydd.
Cyfanswm cost y piano yw £800.

Mae Gerry wedi cynilo (*saved*) $\frac{3}{10}$ o gost y piano yn barod.

Mae rheolwr y band yn rhoi 25% o gost y piano i Gerry.

Mae Gerry yn penderfynu cynilo £80 yr wythnos.

Faint o wythnosau bydd Gerry yn eu cymryd i gynilo digon o arian i brynu'r piano?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [7 + 2 TCY]

Arholwr yn unig

6.

Amserlen tram o Orsaf Kemp i Rowe Place

Mae tram yn gadael yr orsaf:

- bob 12 munud o 8 a.m. tan 10 a.m.
- bob 20 munud o 10 a.m. tan yn hwyr.

Mae'n cymryd 22 munud i deithio o Orsaf Kemp i Rowe Place.

(a) Faint o'r gloch mae'r tram cyntaf ar ôl 20:30 yn gadael Gorsaf Kemp?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

20:50 20:40 21:00 20:36 20:42

.....

.....

(b) Mae Nesta yn edrych ar yr amserlen sy'n cael ei dangos uchod.
Mae hi'n penderfynu cymryd y tram hwyraf posibl o Orsaf Kemp er mwyn bod yn Rowe Place erbyn 10:15 a.m.

Faint o'r gloch bydd tram Nesta yn cyrraedd Rowe Place?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

7. Mae ci gan Rosie. Mae hi'n argraffu (*printing*) dau lun petryal gwahanol ohono.
Uchder y llun bach yw 10 cm a'r lled yw 5 cm.
Uchder y llun mawr yw 40 cm a'r lled yw 15 cm.

Nid yw'r lluniau wrth raddfa

(a) Mae'r llun bach yn costio £2 i'w argraffu.
Mae pob 1 cm^2 o'r llun bach yn costio yr un peth i'w argraffu â phob 1 cm^2 o'r llun mawr.

Cyfrifwch beth yw cost argraffu'r llun mawr.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Er mwyn gwneud ffrâm, mae'n costio 40c am bob centimetr o'r pellter cyfan o amgylch ymyl allanol y llun.

Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Cyfrifwch beth yw cost gwneud ffrâm ar gyfer y llun **bach**. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Cost gwneud ffrâm ar gyfer y llun **bach** yw .....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

8. Mae Martina yn mynd i brynu llaeth (llefrith) er mwyn gwneud crempogau (*pancakes*).

Bach
500 ml am 40c

Canolig
1200 ml am £1.20

Mawr
2000 ml am £2.50

Beth yw maint (*size*) y carton llaeth sy'n cynnig y gwerth gorau am arian?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

9. (a) (i) Mae garddwr wedi rhoi dyfynbris (*quote*) i Hubert am dirlunio (*landscape*) ei ardd.
Cyfanswm pris y garddwr yw £175, heb gynnwys TAW.
Mae cyfanswm y pris yn cynnwys £55 am blanhigion.
Mae gweddill y pris am lafur (*labour*).

Mae'r garddwr yn dweud y bydd yn cymryd 8 awr i dirlunio gardd Hubert.
Cyfrifwch faint yr awr yw pris y garddwr am lafur. [2]

.....

.....

.....

.....

.....

(ii) Mae TAW ar 20% i'w thalu ar y pris o £175.
Cyfrifwch beth yw cyfanswm y pris am y tirlunio, gan gynnwys y TAW. [3]

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

(b) Yr haf canlynol, mae Hubert yn casglu 10 blodyn gwahanol o'i ardd.
Mae e'n mesur taldra pob blodyn.
Mae Hubert hefyd yn cyfrif nifer y dail ar bob blodyn.
Dyma'r canlyniadau.



(i) Ydy hi'n bosibl amcangyfrif nifer y dail ar flodyn sydd â'i daldra yn 6 cm?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Rhaid i chi roi rheswm dros eich ateb. [1]

.....

.....

(ii) Beth yw taldra'r blodyn sydd â'r nifer mwyaf o ddail?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

26 cm 2·5 cm 7·5 cm 5 cm 17·5 cm

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(iii) Mae gan ddau o'r blodau 19 o ddail yr un.
Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng taldra'r ddau flodyn hyn.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [2]

.....

Y gwahaniaeth rhwng taldra'r ddau flodyn yw ..... cm

(iv) Cyfrifwch y canran o'r blodau sydd â **llai na 23 o ddail**. [2]

.....

.....

.....

..... % o'r blodau sydd â **llai na 23 o ddail**.

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

10. Mae coed ceirios (*cherry trees*) gan Malik.
Mae Malik yn gwneud jam ceirios gan ddefnyddio rhywfaint o'r ffrwythau o'r coed.

Mae e'n gwneud ac yn gwerthu 200 jar o jam ceirios.

Mae'r holl gynhwysion (*ingredients*) i wneud y jam yn costio £94 iddo.
Mae Malik yn talu 23c am bob jar jam mae e'n ei defnyddio.
Mae e'n gwerthu pob jar o jam am £1.60.

Cyfrifwch yr elw mae Malik yn ei wneud o werthu'r 200 jar o jam. [5]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

DIWEDD Y PAPUR

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.

Arholwr yn unig

TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

ⓗ WJEC CBAC Cyf.